

ASTUDIAETH ACHOS

BETH YW LLYGREDD?

Defnyddiodd yr ysgol y gweithgaredd ar Tirlun, ond fe'i hategwyd gan waith ar raddfeydd mapiau er enghraifft, yn ogystal ag edrych ar faterion byd-eang trwy lens y Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC).

Gweithiodd y dysgwyr drwy'r dasg gyntaf – 'Beth rydyn ni'n ei olygu wrth 'lygredd'? - a mynd ar fws lleol i weld Gwaith Dur Port Talbot, fel y gallent weld unrhyw lygredd drostynt eu hunain.

Cawsant fwynhad mawr wrth ymchwilio i wneud map cysyniad a luniwyd gan y dosbarth cyfan, er mwyn gwneud eraill yn ymwybodol o lygredd. Hefyd, fe wnaethant gyflwyno eu canfyddiadau yn ystod gwasanaeth.

Bu'r dysgwyr yn cerdded o amgylch yr ardal leol mewn grwpiau bach, i chwilio am dystiolaeth o lygredd. Fe wnaeth dod o hyd i'r 'mannau llygredd' hyn wella eu sgiliau mapio a gwnaethom rywfaint o waith ar raddfeydd mapiau i gynorthwyo'r rhai oedd yn cael anawsterau. Cynhyrchwyd map meddwl oedd yn gyfuniad o ffotograffau a thestun, er mwyn dangos i eraill y mathau o lygredd a'r llygryddion sydd yn yr ardal leol a beth allai fod yn achosi'r llygredd hwn.

Defnyddiodd y dysgwyr y broses ddatrys problemau a awgrymwyd, i feddwl sut y gellid lleihau un o'r llygryddion neu lygredd. Oherwydd yr ymweliad cynharach, dewisodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr ganolbwyntio ar lygrydd o Waith Dur Port Talbot, sydd ar fin cau. Roedd y dysgwyr yn cydweithio'n dda ac yn ymwybodol iawn o'r angen i 'wneud gwahaniaeth'.

Fe wnaethom rywfaint o waith ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy, gan fod yr ysgol mewn partneriaeth ag ysgol ym Mhatagonia ac wedi bod yn defnyddio'r NDC fel ffocws i'r bartneriaeth, cyn edrych ar lygredd byd-eang.



Fe wnaethom ymestyn y dysgu oherwydd fod gan y dysgwyr ddiddordeb mawr yn sut y gallent leihau'r gwastraff a gynhyrchir yn eu cartrefi ac yn yr ysgol. Dyfeisiodd y dysgwyr strategaethau ar gyfer ailgylchu ac aildefnyddio a'u rhoi ar waith.

Roedd gan y dysgwyr ddiddordeb mawr yn y cysyniad o lygredd golau, ac fe dreuliwyd llawer o amser yn ymchwilio i lygredd golau yn lleol ac yn meddwl sut y gellid ei leihau.